# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 22AIN MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans 01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 12 Mehefin 2015)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Edward Thomas Dogan
Christopher Hughes
Ann Williams
Sedd wag

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Angela Russell
Eryl Jones-Williams
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Llywarch Bowen Jones
Peter Read
I. Dilwyn Lloyd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Louise Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2015/16

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd am 2015/16

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 1 - 2

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9fed o Fawrth 2015 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU — 3 - 8

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 09.02.2015
(b) 12.05.2015

## 8. DIWYGIO DEDDF TRWYDDEDU 2003: DEDDF DADREOLI 2015 — 9 - 11

Cyflwyno adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio er gwybodaeth

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22.06.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, , Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. ETHOLCADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

**3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eddie Dogan, Llywarch Bowen Jones ac Ann Williams.

Croesawyd Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i'r Pwyllgor. Nodwyd bod Gareth Jones wedi derbyn cyfrifoldeb dros dro dros yr adran Gwarchod y Cyhoedd yn sgil ymddeoliad Mr John Reynolds, Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd . Anfonwyd neges a ran y pwyllgor i ddiolch i Mr John Reynolds am ei wasanaeth a'i gefnogaeth dros y blynyddoedd i'r Pwyllgorau Trwyddedu.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed o Fawrth 2015 fel rhai cywir.

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 09.02.2015 a 12.05. 2015.

## 8. DIWYGIO DEDDF TRWYDDEDU 2003: DEDDF DADREOLI 2015

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi ymwybyddiaeth yr Aelodau i newidiadau o fewn Deddf Trwyddedu 2003: Deddf Dadreoli 2015. Nodwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015 fydd o ganlyniad yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion. Amlygwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o fesurau ac yn cynnwys mesurau sy'n effeithio ar 'alcohol, chwaraeon ac adloniant' ac yn benodol Deddf Trwyddedu 2003. Nodwyd y byddai'r newidiadau yn cael eu cyflwyno yn raddol:

Tynnwyd sylw at y prif fesurau fydd yn effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 -

- A68 - Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau'r flwyddyn (dod i rym 26.5.15)
- A69 - Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu (dod i rym 1.4.15)
- A70 - Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd (dod i rym 26.5.15)
- A72 - Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu (dod i rym 26.5.15)
- A76 - Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol (dod i rym 6.4.15)

Er hynny, nid oes gorchymyn cychwyn yn manylu pa ddyddiadau y byddai'r darpariaethau isod yn dod i rym. Ategwyd y byddai'r newidiadau isod yn debygol o gael effaith ar lwyth gwaith yr Uned Trwyddedu.

- A67 Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
- A71 – Lluniaeth hwyr y nos

Mewn ymateb i sylw, yng nghyd-destun Gwerthu alcohol (A67), nodwyd bod angen i drefnydd unrhyw ddigwyddiad dystiolaethu'r angen mewn cais i werthu alcohol mewn digwyddiad cymunedol. Bydd rhybudd Rhan 5A yn parhau am dair blynedd ac yn rhybudd ar yr eiddo yn unig. Bydd cost y rhybudd yn cael ei benderfynu yn genedlaethol. Diben y newid yma yw creu awdurdodaeth ysgafnach i leihau baich ar ein cymunedau. Yn ychwanegol, nodwyd nad oedd fformat y rhybudd wedi ei gyflwyno hyd yma ynghyd â'r elfen gorfodaeth.

Y bwriad yw symleiddio prosesau o greu digwyddiadau cymunedol ac nid i geisio busnes oddi ar fusnesau lleol eraill. Croesawyd yr egwyddor, ond amlygwyd nad oedd digon o wybodaeth wedi dod i law. Amlygwyd pryder am yr elfen llwyth gwaith ychwanegol a phrinder adnoddau yr Uned Trwyddedu fydd yn codi o ganlyniad i'r newidiadau.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Pennaeth Rheoleiddio**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m a daeth i ben am 10:55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 09.02.15

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones Williams, Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Llywarch Bowen Jones

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B Edwards (Uwch Gyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd), a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Lloyd Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD – MIRAGE, 360 STRYD FAWR, BANGOR, GWYNEDD.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Owen Maguire, Ms Gilly Harradence (ar ran yr ymgeisydd)

**Aelodau Lleol:** Dim yn bresennol

**Eraill a fynychwyd:** Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Gwenan Mai Williams (Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd), Cynghorydd Jean Forsyth (preswylydd lleol),

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Mirage, 360, Stryd Fawr, Bangor. Nodwyd bod trwydded eiddo wedi bodoli ar yr eiddo pan yn glwb nos ond y drwydded wedi ildio yn 2011. Mynegwyd mai bwriad yr ymgeisydd yw newid defnydd yr eiddo i far cabaret / thema ar gyfer pobl dros 25ain oed gan gynnig gwahanol ddigwyddiadau gyda'r nos a dosbarthiadau ymarfer corff a dawnsio gyda'r dydd. Nodwyd bod y gweithgareddau trwyddedig a ymgeisiwyd amdanynt yn cynnwys pob math o adloniant wedi ei reoleiddio (i ddigwydd dan do); darparu lluniaeth hwyr y nos (i ddigwydd dan do) a chyflenwi alcohol (i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo). Adroddwyd bod hysbysiad gofynnol wedi ei arddangos ar yr eiddo ar y 9fed o Ionawr 2015 a chyhoeddwyd hysbysiad yn y papur lleol, 'Chronicle' 18 o Ragfyr 2014.

b) Yn ystod y cyfnod derbyn sylwadau, ac ar ôl ymgynghori â Heddlu Gogledd Cymru, cyflwynodd yr ymgeisydd, drwy Heddlu Gogledd Cymru, ffurflen gais ddiwygiedig gyda llai o oriau. Cyfeiriwyd hefyd bod yr ymgeisydd yn disgrifio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu gan gynnwys y defnydd o gamerâu teledu cylch cyfyng, defnyddio staff drysau cofrestredig a gweithredu cynllun profi oedran.

c) Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan Heddlu Gogledd Cymru gan nad oedd tystiolaeth gyfredol i'w wrthod. Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Dinas Bangor yn amlygu eu pryderon ar y sail y byddai'n cynyddu sŵn ac aflonyddwch yn yr ardal; byddai'n creu materion trosedd ac anhrefn; annog ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod 'Pwynt Dirlawnder' wedi'i gyrraedd yn yr ardal yma o Fangor. Derbyniwyd llythyr gan breswylydd lleol yn pryderu nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gynnwys yn y cais ynglŷn â'r math o adloniant neu wasanaethau i oedolion oedd i'w cynnal hyd at 11 gwaith y flwyddyn yn yr eiddo.

ch) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i rannu eu sylwadau.

d) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd nad oedd bwriad i redeg clwb nos, ond bar cabaret fydd yn apelio at oedolion dros 25ain oed. Nodwyd bod yr eiddo wedi derbyn trwydded dros dro dros y Nadolig ac nad oedd unrhyw ddigwyddiad na chwyn wedi eu derbyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhesymeg dros gynnwys 'adloniant ar gyfer oedolion' yn y cais, nodwyd nad oedd cynlluniau pendant ar gyfer hyn, ond bod y cymal wedi ei gynnwys i sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori yn y drwydded. Gwnaed awgrym i'r ymgeisydd hysbysu'r heddlu o'r digwyddiadau 'adloniant ar gyfer oedolion' a fyddai yn cael eu cynnal fel ymarfer da. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerthu alcohol oddi ar y safle, nodwyd bod hyn yn cael ei gynnwys ar sawl trwydded, ond nid oedd bwriad gan yr ymgeisydd i werthu alcohol tu allan i oriau trwyddedu. Unwaith eto, nodwyd bod y cymal wedi ei gynnwys rhag ofn bod yr angen yn codi.
(Nododd y cyfreithiwr nad oedd 'angen' yn fater i'r panel trwyddedu ei ystyried).

dd) Mewn ymateb i'r cais nododd Heddlu Gogledd Cymru eu bod wedi cynnal cyfarfod gyda'r ymgeisydd a chynrychiolydd cyfreithiol ar y 9fed o Ionawr i drafod y cais. Nodwyd bod yr oriau agor yn cyfateb i oriau eiddo cyffelyb yn ardal Bangor a bod amodau ychwanegol wedi eu cytuno (cymal ychwanegol i weithredu Teledu Cylch Cyfyng a goruchwylwyr drysau). Amlygwyd nad oedd problemau gyda'r eiddo ac felly dim tystiolaeth i wrthwynebu. O ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar yr eiddo, nodwyd nad oedd gofynion caeth o dan y Ddeddf Trwyddedu yn mynegi bod rhaid cyfathrebu gyda'r heddlu, ond nid oedd dim yn atal yr ymgeisydd rhag hysbysu'r heddlu o ddigwyddiadau a pharhau i gydweithio ac ymgynghori gyda'r heddlu a'r awdurdod lleol.

e) Mewn ymateb i'r cais nododd y Cynghorydd Jean Forsyth (preswylydd lleol) nad oedd ganddi wrthwynebiad i'r cais, ond bod ganddi sylwadau a chais am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â rhai materion oedd yn cael eu nodi. (Ymddengys bod rhai o'r sylwadau wedi eu gwneud ar y cais gwreiddiol a bod y Cynghorydd Jean Forsyth bellach yn derbyn diwygiad i'r oriau agor).

O ran ymateb i gwestiwn ynglŷn â cherddoriaeth wedi ei 'chwyddo', nodwyd bod adroddiad gan Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn argymell amodau sŵn. Nododd yr ymgeisydd nad oedd bwriad ganddo i greu sŵn uchel a'i fod yn barod i gydweithio gyda'r bobl leol. O ran pryder cael peiriannau hapchwarae yn yr eiddo, adroddwyd bod gan yr ymgeisydd hawl i ddau beiriant o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Yn ychwanegol, mynegodd y Cyng. Forsyth nad oedd digon o

wybodaeth ynglŷn â hyrwyddo amcan trwyddedu 'amddiffyn plant rhag niwed'. Nododd yr ymgeisydd bod bwriad ganddo i drefnu digwyddiadau yn ystod y dydd i blant ac y bydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o fewn cytundeb y drwydded. Mynegodd y Cyng. Forsyth bod y ffurflen gais, gan gyfeirio at y nodiadau cyfarwyddyd, yn gamarweiniol. Dywedodd y cyfreithiwr bod y ffurflen gais yn un safonol ac nad oedd gan yr awdurdod y grym i addasu'r ffurflen.

f) Mewn ymateb i'r cais nododd Gwenan M Williams ar ran Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd. Nid oedd y Gwasanaeth yn gwrthwynebu'r cais ond yn cynnig amodau sŵn safonol i'w cynnwys ar y drwydded. Mewn ymateb, nododd yr ymgeisydd, er bod y wybodaeth yn dechnegol iawn ei fod wedi cytuno gyda rhai mesurau i 'ynysu'r' eiddo. Cafwyd cyfle dros y Nadolig i asesu lefelau sŵn ac aed ati i wneud addasiadau a gwelliannau i'r eiddo er mwyn lleihau'r allbwn sŵn. Cymeradwywyd bod cydweithio da rhwng y gwasanaeth a'r ymgeisydd.

ff) Amlygwyd nad oedd sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelod Lleol

g) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Cyngor Dinas Bangor. Mewn ymateb i sylwadau ynglŷn â 'phwynt dirlawnder' rhestrwyd nifer o sefydliadau o fewn y ddinas sydd wedi cau ac felly bod llai o sefydliadau yn bodoli nag o'r blaen. Ategodd y Cadeirydd mai mater i'r awdurdod trwyddedu oedd 'pwynt dirlawnder' ac nid Cyngor Dinas Bangor.

h) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

i) Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn i ganiatáu trwydded o'r newydd yn unol a'r cais. Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn bod y cais yn gydnaws a'r 4 amcan trwyddedu a bod yr eiddo yn cydweithredu gyda'r awdurdodau perthnasol.

**PENDERFYNWYD CANIATÁU TRWYDDED NEWYDD YN UNOL Â'R CAIS FEL Y'I CYFLWYNWYD GERBRON, YN DDAROSTYNGEDIG I'R CANLYNOL YN CAEL EU HYMGORFFORI I'R DRWYDDED:**

**1. Yr amodau a argymhellwyd gan Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd mewn perthynas â rheoli sŵn.**

**Ar sail y sylwadau ysgrifenedig a llafar, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais ynghyd â'r amodau rheoli sŵn yn briodol er mwyn annog yr amcanion trwyddedu.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:10pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 12.05.15

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen, Cyng. Ann Williams, Cyng. Angela Russell

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd), a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen . Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO– KWIK SAVE, 346- 350 STRYD FAWR, BANGOR, GWYNEDD.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mangal Shoker (yr ymgeisydd)

**Aelod Lleol:** Dim yn bresennol

**Eraill a fynychwyd:** Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru),

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo ar gyfer Kwik Save, 346 - 350, Stryd Fawr, Bangor. Amlygwyd bod y drwydded gyfredol yn caniatáu gwerthiant alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 08:00 a 22:00, saith diwrnod yr wythnos a bod yr eiddo ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Nodwyd mai pwrpas y cais oedd amrywio'r drwydded eiddo cyfredol drwy ymestyn oriau gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 08:00 a 02:00, saith diwrnod yr wythnos. Cyfeiriwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'i gais.

b) Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor ar yr amod bod yr oriau agor ar gyfer gwerthu alcohol yn unol â siopau tebyg eraill yn y cyffiniau. Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Heddlu Gogledd Cymru gan eu bod o'r farn y byddai caniatáu'r cais yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn yn yr ardal benodol yma o Fangor. Derbyniwyd argymhellion gan yr Heddlu i'r ymgeisydd ystyried oriau diwygiedig ar gyfer gwerthu alcohol yn ystod yr wythnos ac addasu'r amod teledu cylch cyfyng.

c) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i rannu eu sylwadau.

ch) Mewn ymateb i'r adroddiad gofynnodd aelod o'r Is Bwyllgor i'r swyddog trwyddedu beth oedd y nifer o siopau oedd yn gwerthu alcohol hyd ddau o'r gloch y bore ym Mangor. Nodwyd mai 3 eiddo oedd yn gwerthu alcohol hyd 02:00am - Tesco, eiddo ym Mangor Uchaf ac eiddo ym mhegwn arall y Stryd Fawr.

d) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn barod i dderbyn amodau'r Heddlu gan ddiwygio'r oriau gwerthu alcohol a'r amodau oedd yn berthnasol i deledu cylch cyfyng. Dywedodd bod drysau'r siop yn cau am 22:00pm a bod bwriad i'r alcohol gael ei werthu drwy ffenest / hatch yn y siop fel sydd eisoes yn cael ei wneud gyda nwyddau ar hyn o bryd.

dd) Mewn ymateb i'r cais, nododd cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru eu bod wedi mynegi pryder i'r cais gwreiddiol gan fod yr eiddo wedi ei leoli mewn ardal brysur iawn o'r ddinas. Nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Rheolwr yr eiddo, Arolygwr Lleol a Rhingyll Lleol i osod amodau priodol. Eu pryder, gan nad oedd mynediad yn cael ei ganiatáu i Glybiau Nos ar ôl 01:00am, y buasai alcohol ar gael drwy eiddo Kwik Save. Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn cynnig i'r ymgeisydd dderbyn oriau gwerthu alcohol dydd Sul, dydd Llun, dydd Mawrth hyd at 02:00am, dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn hyd at 00:00am ynghyd ag amodau ychwanegol i'r teledu cylch cyfyng.

e) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Is-bwyllgor ynglŷn â'r angen i agor hyd at 02:00am, nododd yr ymgeisydd ei fod yn ymateb i'r galw.

f) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Is-bwyllgor ynglŷn â chwynion am yr eiddo, nododd cynrychiolydd yr Heddlu nad oedd cwynion uniongyrchol i'r eiddo wedi eu cofrestru. Er hynny, ychwanegwyd bod trafferthion yn yr ardal benodol yma, yn enwedig tuag at ddiwedd yr wythnos oherwydd cynnydd mewn pobl o ganlyniad i ddau glwb nos cyfagos ac eiddo darparu prydau poeth hwyr y nos.

ff) Amlygwyd nad oedd sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelod Lleol

g) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Cyngor Dinas Bangor.

h) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn y dylid caniatau gwyro'r drwydded. Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd ynghyd ar newidiadau a gytunwyd rhwng yr ymgeisydd a'r Heddlu, roedd yr Is bwyllgor yn fodlon bod y gwyriad a wneir yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**PENDERFYNWYD CANIATÁU AMRYWIAD I'R DRWYDDED EIDDO, YN DDAROSTYNGEDIG BOD Y CANLYNOL YN CAEL EU HYMGORFFORI I'R DRWYDDED:**

1. **Canieteir gwerthiant alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo**

   - **Dydd Sul, dydd Llun a dydd Mawrth 8:00am hyd at 02:00am**
   - **Dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn 8:00 am hyd at hanner nos.**

2. **Bod amodau Teledu Cylch Cyfyng sydd wedi eu hargymell yn ysgrifenedig gan yr Heddlu yn cael eu hymgorffori i'r drwydded**

3. **Bod yr amodau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd ym mocsys C, D ac E o'r atodlen weithredu' oedd ynghlwm a'r cais dros y gwyriad yn cael eu hymgorffori i'r drwydded.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r Uned Trwyddedu yn cadarnhau'r penderfyniad yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol a bod yr amrywiad yn dod i rym ar unwaith. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:50pm

| PWYLLGOR: | PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 22 MEHEFIN 2015 |
| TEITL: | DIWYGIO DEDDF TRWYDDEDU 2003:<br>DEDDF DADREOLI 2015 |
| PWRPAS: | ER GWYBODAETH |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Derbyniodd Deddf Dadreoli 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015. Mae'r Ddeddf Dadreoli yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion.

1.2 Mae Ddeddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o fesurau ac mae'n cynnwys mesurau sy'n effeithio ar 'Alcohol, chwaraeon ac adloniant' ac yn benodol Deddf Trwyddedu 2003.

## 2.0 DEDDF DADREOLI 2015

2.1 Y mesurau dadreoli sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 yw:
A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau y flwyddyn
A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu
A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd
A71 – Lluniaeth hwyr y nos
A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu
A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol

## 3.0 Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015

3.1 Gwnaed Gorchymyn Deddf Dadreoli 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015 ar 27 Mawrth 2015. Roedd yn manylu pa ddarpariaethau o Ddeddf Dadreoli 2015 fyddai'n dod i rym ar y dyddiadau a nodwyd. Mae'r dyddiadau sy'n berthnasol i'r mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn:-

### 3.2 O 1 Ebrill 2015

A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu
Mae Adran 69 yn diwygio adran 115 Deddf Trwyddedu 2003 i dynnu'r gofyn ar ddeiliaid trwyddedau personol i ymgeisio i adnewyddu eu trwyddedau personol bob deg mlynedd, a gwneud hyd trwyddedau personol yn amhenodol.

### 3.3 O 6 Ebrill 2015

A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol
Mae Adran 76 yn mewnosod eithriad newydd o'r disgrifiadau o adloniant wedi'i reoleiddio yn Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003. Nid yw arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol yn adloniant wedi'i reoleiddio y mae gofyn cael caniatâd trwyddedu ymlaen llaw ar ei gyfer i'r graddau eu bod yn bodloni'r holl amodau a nodwyd yn yr

adran. (Mae Adran 76 yn dod i rym ar 6 Ebrill 2015 er mwyn cyd-fynd â newidiadau eraill i adloniant wedi'i reoleiddio sydd hefyd yn dod i rym ar y diwrnod hwnnw.)

**3.4** **O 26 Mai 2015**
A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau bob blwyddyn
Mae Adran 68 yn diwygio adran 107 Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn cynyddu uchafswm nifer y digwyddiadau y flwyddyn y gellir rhoi rhybudd am ddigwyddiad dros dro ar eu cyfer yn yr un eiddo, o 12 i 15 Bydd yr uchafswm diwygiedig yn berthnasol i flynyddoedd calendr o 1 Ionawr 2016.

A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd
Mae Adran 70 yn diddymu adran 148 Deddf Trwyddedu 2003 sydd, drwy hynny, yn diddymu'r drosedd o werthu melysion gwirod i blant dan 16 oed.

A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu
Mae Adran 72 yn dileu gofynion i adrodd am golli neu ddwyn trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb, rhybudd digwyddiad dros dro neu drwydded bersonol i'r heddlu cyn gellir gwneud cais am un newydd gan yr awdurdod trwyddedu, o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**3.5** Nid oedd y Gorchymyn Cychwyn yn manylu pa ddyddiadau y byddai'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym.
A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
A71 – Lluniaeth hwyr y nos

## 4.0 EFFAITH DEDDF DADREOLI 2015

4.1 Bydd effaith y Gorchymyn Deddf Dadreoli 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015 ar lwyth gwaith yr Uned Trwyddedu yn fychan iawn. Roedd pob Trwydded Bersonol a gyhoeddir gan y Cyngor Gwynedd yn dod i ben o fis Mehefin 2015 ymlaen, fodd bynnag, mae'r gofyniad i adnewyddu'r drwydded wedi ei dileu o fis Ebrill 20215.

4.2 Fodd bynnag, fydd cychwyn A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol a A71 - Lluniaeth hwyr y nos yn debygol o gael effaith llawer mwy.

**A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol**
Mae'r adran hon yn cyflwyno ffurf newydd o awdurdodi ("Rhybudd Rhan 5A") i Ddeddf 2003 er mwyn galluogi i gyrff penodol (e.e. sefydliadau cymunedol neu fusnesau bach sy'n gwerthu alcohol fel rhan atodol o wasanaeth ehangach) werthu alcohol heb orfod defnyddio un o'r ffurflenni presennol am awdurdod dan Ddeddf 2003. Diben y llywodraeth yw creu awdurdodaeth ysgafnach i leihau'r baich ar y bobl neu'r cyrff hynny.

**A71 – Lluniaeth hwyr y nos**
Mae'r adran hon yn mewnosod paragraff newydd 2A yn Atodlen 2 i Ddeddf 2003 i gyflwyno pwerau ar awdurdod trwyddedu i eithrio cyflenwad o fwyd poeth neu ddiod boeth o'r gofynion yn Atodlen 2 mewn tri chyswllt.
Mae cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth wedi'i eithrio os yw'n digwydd

(a) ar neu o eiddo sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod trwyddedu perthnasol sydd wedi'i ddynodi gan yr awdurdod;
(b) ar neu o eiddo yn ardal awdurdod trwyddedu perthnasol o ddisgrifiad sydd wedi'i ddynodi gan yr awdurdod (yn rhinwedd paragraff newydd 2A(2) ni ellir dynodi eiddo gan yr awdurdod oni bai eu bod wedi'u disgrifio mewn ffordd benodol yn ôl y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol); ac
(c) yn ystod cyfnod (sy'n dechrau am neu wedi 11pm ac yn gorffen am neu cyn 5am) a ddynodir gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn ei ardal.

4.3 Nid ydym yn gwybod y nifer o ddigwyddiadau cymunedol a busnesau atodol a fydd yn gwneud defnydd o'r Hysbysiad Rhan 5A eto. Bydd y ffi am Rybudd Rhan 5A yn cael ei osod yn genedlaethol. Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno Rhybudd Rhan 5A i'r awdurdod trwyddedu ynghyd â'r ffi a ragnodwyd. Gall yr Heddlu neu'r gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol gwrthwynebu'r Rhybudd Rhan 5A a gall gwrth-hysbysiad (counter notice) cael ei gyhoeddi gan yr awdurdod trwyddedu. (Mae gan y broses llawer o debygrwydd â phrosesu Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.)

4.4 O ran A71 - lluniaeth hwyr y nos, gall yr awdurdod trwyddedu ddynodi ardaloedd o fewn yr awdurdod i eithrio cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth o'r gofynion, ee ystadau diwydiannol. Gall ddynodi disgrifiad o'r eiddo yn yr ardaloedd dynodedig a gall eithrio'r cyflenwad yn yr ardal ddynodedig ar adeg benodol 11:00 - 05:00, ee cyflenwadau o 11pm a hanner nos.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r newidiadau diweddar i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn dilyn cychwyn darpariaethau Deddf Dadreoli 2015 a nodi bod dyddiad cychwyn ar gyfer y ddau brif newidiadau ddim wedi eu nodi eto.